**LC1488**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Hysbysiadau o Farchnata Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwahardd gwerthu bwydydd at ddefnydd maethol neilltuol heb roi hysbysiad ymlaen llaw i'r awdurdod cymwys perthnasol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn galluogi'r Asiantaeth Safonau Bwyd i atal dros dro neu gyfyngu ar fasnachu mewn cynhyrchion o'r fath os oes ganddo seiliau manwl dros sefydlu nad yw'r cynnyrch yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb y Cyngor 89/398 neu os yw'n peryglu iechyd pobl. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu Rheoliadau Hysbysiadau o Farchnata Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Cymru a Lloegr) 2002 i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau am wallau yn y teitl fel y mae'n ymddangos ym mhennawd y Rheoliadau. Gan nad yw'r pennawd yn rhan o'r Rheoliadau gellir cywiro'r gwallau hyn wrth eu cyhoeddi.

### David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**13 Mawrth 2007**